

# **Côd Ymddygiad** **Aelodau CIC:** Ymdrin â honiadau o dorri'r Côd yn ystod y pandemig Coronafeirws

Ebrill 2020



## Ymdrin â honiadau o dorri Côt Ymddygiad Aelodau CIC yn ystod y pandemig Coronafeirws

Fel pob corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn cyflawni ein gweithgareddau wedi newid, mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i ymateb i unrhyw bryderon ynghylch honiadau o dorri Côt Ymddygiad Aelodau CIC mewn modd amserol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib bydd ein hadnoddau'n cael eu hymestyn, ac efallai na fydd rhai o'n staff ar gael.

Mae hyn yn golygu y gall gymryd yn hirach na'r arfer i ymchwilio i gŵyn am aelod.

Mae'n golygu hefyd na fydd unrhyw wrandawiadau na gwrandawiadau apêl yn cael eu cynnal yn gorfforol. Mae'n bosib byddant yn cael eu cynnal yn rhithwir, gan ddefnyddio technoleg fideo-gynadledda, lle mae hyn yn briodol.

Weithiau, gall aelod wneud camgymeriad neu dorri'r Côt Ymddygiad. Lle mae hyn yn fân achos, a bod yr aelod yn cydnabod ei fod wedi gwneud camgymeriad, dylai gael cynnig cymorth a chynngor ac, os oes angen, dylid cymryd camau i'w addysgu a'i ddatblygu.

Dylai'r Cadeirydd CIC ac aelod uwch o staff y CIC fynd i'r afael â thoriadau o'r fath, mewn modd cyflym ac anffurfiol.

Bydd yr asesiad aelodau yn rhoi cyfle arall i'r aelod ystyried yr hyn ddigwyddodd, a'r hyn mae wedi dysgu o ganlyniad.

Mewn achosion lle:

- Honnir y torrwyd y Côt yn ddifrifol e.e. gyda'r posibilrwydd o roi enw drwg i'r CIC neu,
- Honnir bod mân achosion o dorri'r Côt wedi digwydd dro ar ôl tro, er gwaethaf y ffaith y cynigwyd cymorth neu gyfleoedd datblygu neu,
- Nid yw'r aelod yn derbyn neu'n cytuno ei fod wedi torri'r Côt,

yna mae'r polisi canlynol yn berthnasol.

**MAE'R POLISI HWN YN BERTHNASOL I HOLL AELODAU CIC,  
GAN GYNNWYS AELODAU CYFETHOLEDIG.**

# Honiad bod aelod CIC wedi torri'r Côt yn ystod y pandemig Coronafeirws

## Ymchwiliad

Gyda chytundeb y Cadeirydd, bydd Prif Swyddog y CIC perthnasol yn comisiynu ymchwiliad. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal gan rywun o fewn i sefydliad CIC, nad sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, ac ni fydd yn rhan o'r weithdrefn Côt Ymddygiad fel arall. Mae'n bosib y bydd yn cymryd yn hirach i ni benodi Swyddog Ymchwilio. Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i ymateb i unrhyw bryderon mewn modd amserol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib bydd ein hadnoddau'n cael eu hymestyn, ac efallai na fydd rhai o'n staff a'n haelodau ar gael.

Bydd yr ymchwiliad yn ceisio canfod ffeithiau unrhyw honiad(au) o dorri'r Côt, gan gynnwys clywed gan yr aelod yn uniongyrchol. Lle bynnag y bo modd, bydd y Swyddog Ymchwilio yn siarad â phobl trwy delegynadledda neu fideo-gynadledda, yn lle cwrdd â nhw wyneb yn wyneb.

Nid rôl y Swyddog Ymchwilio yw gwneud unrhyw ddyfarniad ar yr achos, dim ond paratoi adroddiad ffeithiol. Mae'n bosib bydd yn cymryd yn hirach i'r Swyddog Ymchwilio i baratoi'r adroddiad yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

Mewn amgylchiadau eithriadol, ac wedi ymgynghori gyda Phrif Swyddog y CIC perthnasol a'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (y Bwrdd CICau), gall y Bwrdd CICau argymhell i Weinidogion Cymru bod atal yr aelod o'i waith dros dro yn briodol. Lle cafodd yr aelod ei benodi gan y 3<sup>ydd</sup> sector neu Awdurdod Lleol, dim ond ar ôl ymgynghori â'r corff penodi perthnasol y gellir gwneud yr argymhelliad hwn.

Bydd canfyddiadau adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn cael eu hystyried gan Brif Swyddog y CIC, a fydd yn penderfynu a oes achos i'w ateb.

## Gwrandawriad Côt Ymddygiad

Os bernir bod achos i'w ateb, mae'n bosib bydd yr aelod yn cael ei wahodd i fynychu gwrandawriad Côt Ymddygiad rhithwir, gan ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda. Os nad yw'n bosib trefnu cyfleusterau fideo-gynadledda mewn ffordd sy'n sicrhau gwrandawriad teg a chyfrinachol, yna bydd y broses yn cael ei gohirio nes bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosib.

Os yw'n briodol i fwrw ymlaen, bydd y gwrandawriad rhithwir yn cael ei gynnal gan banel, yn cynnwys 3 aelod o'r pwyllgor ymddygiad.

Os bydd angen cymorth ar y panel gydag unrhyw agweddau gweithdrefnol o'r broses, yna gellir gwneud cais i'r Bwrdd CICau, a fydd yn trefnu i CIC arall ddarparu cymorth ar lefel swyddog.

Bydd hawl gan yr aelod i ddod â ffrind neu gyd-aelod gydag ef, nad sy'n gweithredu mewn rhinwedd cyfreithiol. Er mwyn sicrhau bod pawb yn aros yn ddiogel yn ystod y cyfnod digynsail hwn, gofynnwn i bob cyfranogwr ddilyn canllawiau'r Llywodraeth a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Yn ystod y gwrandawriad rhithwir, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno ei adroddiad, ynghyd â thystiolaeth ategol. Dylai'r adroddiad ac unrhyw dystiolaeth ategol gael eu darparu i'r aelod bythefnos ymlaen llaw ar e-bost.

Bydd cyfle i'r aelod (neu ei ffrind neu gyd-aelod) i:

- holi cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio, neu unrhyw dystion sy'n ymwneud â'r dystiolaeth a gyflwynwyd, a

- chyflwyno ei achos ac unrhyw dystiolaeth ategol.

Bydd cyfle i'r panel i holi cwestiynau i'r aelod neu unrhyw dystion, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd.

## Canlyniad

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, bydd y panel yn penderfynu a yw'r honiad yn cael ei gadarnhau.

Os na chaiff yr honiad ei gadarnhau, yna bydd yr aelod yn cael gwybod am y penderfyniad, cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol.

Os caiff yr honiad ei gadarnhau, yna bydd y panel yn mynd ati i benderfynu ar gamau gweithredu priodol. Gall hyn gynnwys argymhellion ar gyfer dysgu a datblygu ac, yn yr amgylchiadau yma, bydd yr aelod yn cael gwybod am y canlyniad, a bydd gofyn iddo gadarnhau ei fod yn cytuno i'r rhaglen ddysgu a datblygu a argymhellir.

Os nad yw'r panel yn ystyried byddai cwrs dysgu a datblygu yn briodol neu'n llwyddiannus, neu pe bai'r aelod yn gwrthod dilyn y cwrs dysgu a datblygu a argymhellir, yna bydd y panel yn ymgynghori â'r Pwyllgor Gweithredol (ond heb gynnwys y Cadeirydd CIC), ynghylch a ddylid gofyn i'r Bwrdd CICau i ystyried gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru i derfynu aelodaeth yr aelod CIC. Bydd yr aelod yn cael gwybod am y canlyniad, yn ysgrifenedig, yn y fan hon ac, os bydd y CIC yn bwriadu gofyn i'r Bwrdd i ystyried gwneud argymhelliad i derfynu ei aelodaeth, yna bydd yr aelod yn cael gwybod am y bwriad hwn hefyd, ac yn cael cyfle i apelio yn unol â'r Broses Apelio isod.



## Proses apelio

Rhaid i aelod sy'n dymuno apelio i gyflwyno ei fwriad i wneud hynny o fewn 14 diwrnod calendr iddo dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r canlyniad.

Dylai'r hysbysiad hwn o fwriad i apelio nodi ar ba sail y mae'n apelio. Gall yr aelod apelio yn erbyn penderfyniad y panel i gadarnhau pob un o'r holiadau, neu rai ohonynt, neu unrhyw gamau dilynol gan y CIC, gan gynnwys cais i'r Bwrdd CICau i ystyried gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru i derfynu ei aelodaeth. Dylai'r apêl fod yn eglur ynghylch sail yr apêl, ac a yw hyn yn apêl yn erbyn dyfarniad y panel, unrhyw gamau dilynol a benderfynwyd gan y CIC, neu yn erbyn unrhyw agwedd weithdrefnol i'r ymchwiliad a'r gwrandawriad ei hun.

Bydd panel apêl rhithwir yn cael ei benodi, a bydd y trefniadau gweinyddol yn eu lle o fewn 14 diwrnod calendr a, lle bynnag y bo modd, gwrandewir ar yr apêl o fewn 28 diwrnod calendr i dderbyn yr hysbysiad apêl. Os nad yw hyn yn bosib yn yr amgylchiadau presennol, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig. Bydd y panel apêl rhithwir yn cynnwys y Cadeirydd CIC, ynghyd â 2 aelod bwrdd nad sydd eisoes wedi bod yn rhan o'r broses.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai bydd angen ymestyn y terfyn amser hwn, gyda chytundeb y ddau barti, ond dylid gwneud pob ymdrech i wrando ar yr apêl yn brydlon.

Os bydd angen cymorth ar y panel apêl, gydag unrhyw agweddau gweithdrefnol, yna gellir gwneud cais i'r Bwrdd CICau, a fydd yn

trefnu i CIC arall i ddarparu cymorth ar lefel swyddog. Pwrpas yr apêl yw sefydlu a oedd y penderfyniad a wnaed yn y gwrandawriad Côt Ymddygiad yn rhesymol, yng ngoleuni'r sail a godwyd gan yr aelod. Nid ail-wrandawriad y dystiolaeth wreiddiol yw'r apêl.

Bydd gwrandawriad yr apêl yn ystyried, yn benodol, a oedd y camau y penderfynwyd arnynt gan y CIC yn deg a rhesymol. Efallai bydd gwrandawriad yr apêl yn ystyried a chafodd y weithdrefn ei chymhwyso'n briodol.

Bydd yr apêl yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd sylweddol a nodwyd yn y sail dros apelio.

Bydd Prif Swyddog y CIC, yr aelod a'i gynrychiolydd yn bresennol 'yn rhithwir' trwy gydol yr achos, hyd nes y bydd y panel yn ymddeol i drafod yn breifat.

Bydd yr aelod (neu ei ffrind neu gydweithiwr) yn cadarnhau sail ei apêl, ac yn darparu gwybodaeth sy'n cefnogi ei achos.

## **Holi**

Bydd y Prif Swyddog yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r aelod.

Bydd y panel apêl yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r aelod.

Bydd aelodau'r panel apêl yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r Prif Swyddog.

Bydd yr aelod (neu ei ffrind neu gyd-aelod) yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r Prif Swyddog.

## **Crynhoi**

Bydd y Prif Swyddog yn cyflwyno'r cyfiawnhad dros benderfyniad y CIC, a bydd yn cael cyfle i grynhoi. Bydd yr aelod (neu ei ffrind neu gydweithiwr) yn cael cyfle i grynhoi.

Ni ddylai'r naill barti na'r llall gyflwyno gwybodaeth newydd yn y fan hon.

## **Dod i benderfyniad**

Gall y panel apêl, fel y barno'n ddoeth, i ohirio gwrandawriad yr apêl, er mwyn ceisio ac adolygu gwybodaeth bellach.

Bydd y panel apêl yn trafod mewn sesiwn breifat rithwir, gan adalw'r ddau barti yn unig i egluro unrhyw bwyntiau o ansicrwydd ynghylch y dystiolaeth a roddwyd eisoes. Os oes angen adalw, yna fe fydd y ddau barti'n dychwelyd.

Pan fydd y panel apêl wedi dod i benderfyniad, dylent roi gwybod i'r aelod a'r Prif Swyddog am y canlyniad ar unwaith, neu o fewn 7 diwrnod calendr. Yn y naill achos neu'r llall, rhoddir gwybod i bob parti am y penderfyniad, yn ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod calendr i'r apêl. Os nad yw hyn yn bosib, yna fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

## **Argymhelliad i Weinidogion Cymru**

Os na fydd y CIC wedi derbyn unrhyw apêl o fewn 14 diwrnod i'r aelod gael gwybod am y canlyniad, neu os derbynnir apêl ond bod y canlyniad yn cael ei gadarnhau ar apêl, yna bydd y CIC yn cysylltu â'r

Bwrdd CICau, i ofyn iddynt ystyried gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru i derfynu aelodaeth. Bydd y Bwrdd CICau, ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad pellach sy'n ofynnol gyda'r CIC, yn penderfynu a ddylid gwneud yr argymhelliad hynny. Os yw'r aelod wedi cael ei benodi gan y 3<sup>ydd</sup> sector neu Awdurdod Lleol, dim ond ar ôl i'r Bwrdd CICau ymgynghori â'r corff perthnasol y gellir gwneud yr argymhelliad hwn.

Yn dilyn penderfyniad gan y Bwrdd CICau, ynghylch a ddylid argymhell terfynu aelodaeth, rhaid anfon llythyr at yr aelod yn rhoi gwybod iddo a oes argymhelliad i Weinidogion Cymru yn cael ei wneud.

## Honiad bod Cadeirydd CIC wedi torri'r Côt yn ystod y pandemig Coronafeirws

Lle honnir bod Cadeirydd CIC wedi torri'r Côt Ymddygiad, mae'r broses ganlynol yn berthnasol:

### Ymchwiliad

Gyda chytundeb Cadeirydd y Bwrdd CICau, bydd Prif Weithredwr y Bwrdd CICau yn comisiynu ymchwiliad. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal gan rywun nad sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, ac ni fydd yn rhan o'r weithdrefn Côt Ymddygiad fel arall. Mae'n bosib bydd yn cymryd yn hirach i ni benodi Swyddog Ymchwilio. Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i ymateb i unrhyw bryderon mewn modd amserol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib bydd ein hadnoddau'n cael eu hymestyn, ac efallai na fydd rhai o'n staff a'n haelodau ar gael.

Bydd yr ymchwiliad yn ceisio canfod ffeithiau unrhyw honiad(au) o dorri'r Côt, gan gynnwys clywed gan y Cadeirydd CIC yn uniongyrchol. Lle bynnag y bo modd, bydd y Swyddog Ymchwilio yn siarad â phobl trwy delegynadledda neu fideo-gynadledda, yn lle cwrdd â nhw wyneb yn wyneb.

Nid rôl y Swyddog Ymchwilio yw gwneud unrhyw ddyfarniad ar yr achos, dim ond paratoi adroddiad ffeithiol. Mae'n bosib bydd yn cymryd yn hirach i'r Swyddog Ymchwilio baratoi'r adroddiad

oherwydd yr amgylchiadau presennol. Os bydd hyn yn digwydd, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Bwrdd CICau, ar ôl ymgynghori gyda'r CIC perthnasol, argymhell i Weinidogion Cymru bod aelodaeth y Cadeirydd CIC yn cael ei atal dros dro.

Lle cafodd y Cadeirydd CIC ei enwebu fel aelod gan y 3<sup>ydd</sup> sector neu Awdurdod Lleol, dim ond ar ôl ymgynghori â'r corff penodi perthnasol y gellir gwneud yr argymhelliad i atal ei aelodaeth.

Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu hystyried gan Gadeirydd y Bwrdd CICau ac aelod o'r TUR enwebedig, a fydd yn penderfynu a oes achos i'w ateb.

### **Gwrandawriad Côt Ymddygiad**

Os bernir bod achos i'w ateb, bydd y Cadeirydd CIC yn cael ei wahodd i fynychu gwrandawriad Côt Ymddygiad rhithwir, gan ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda. Os nad yw'n bosib trefnu cyfleusterau fideo-gynadledda mewn ffordd sy'n sicrhau gwrandawriad teg a chyfrinachol, yna bydd y broses yn cael ei gohirio nes bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosib.

Bydd y gwrandawriad rhithwir yn cael ei gynnal gan 3 aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a dylai un ohonynt fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Bydd aelod o'r TUR enwebedig yn bresennol, i roi cymorth gydag unrhyw faterion gweithdrefnol, os oes angen.

Bydd hawl gan y Cadeirydd CIC i ddod â ffrind neu gyd-aelod gydag ef (yn rhithwir), nad sy'n gweithredu mewn rhinwedd cyfreithiol. Er mwyn sicrhau bod pawb yn aros yn ddiogel yn ystod y cyfnod digynsail hwn, gofynnwn i bob cyfranogwr ddilyn canllawiau'r Llywodraeth a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Yn ystod y gwrandawriad rhithwir, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno ei adroddiad, ynghyd â thystiolaeth ategol. Dylai'r adroddiad ac unrhyw dystiolaeth ategol gael eu darparu i'r Cadeirydd CIC bythefnos ymlaen llaw.

Bydd cyfle i'r Cadeirydd CIC (neu ei gydymaith) i holi cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio, neu i unrhyw dystion sy'n ymwneud â'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

Bydd y Cadeirydd CIC (neu ei gydymaith) yn cael cyfle i gyflwyno ei achos ac unrhyw dystiolaeth ategol. Bydd y panel yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r aelod, neu unrhyw dystion, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, bydd y panel yn penderfynu a yw'r honiad yn cael ei gadarnhau.

### **Dod i benderfyniad**

Os na chaiff yr honiad ei gadarnhau, yna bydd y Cadeirydd CIC yn cael gwybod am y penderfyniad, cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol.

Os caiff yr honiad ei gadarnhau, yna bydd y panel rhithwir yn penderfynu ar gamau gweithredu priodol. Gall hyn gynnwys argymhellion ar gyfer dysgu a datblygu ac, yn yr amgylchiadau yma, bydd y Cadeirydd CIC yn cael gwybod am y canlyniad, a bydd gofyn iddo gadarnhau ei fod yn cytuno i'r rhaglen dysgu a datblygu a argymhellir.

Os nad yw'r panel yn ystyried byddai rhaglen dysgu a datblygu yn briodol neu'n llwyddiannus, neu pe bai'r Cadeirydd CIC yn gwrthod dilyn y rhaglen dysgu a datblygu a argymhellir, yna gall y panel argymhell i'r Bwrdd CICau bod llythyr yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru i argymhell terfynu aelodaeth y Cadeirydd CIC. Cyn dod i benderfyniad a ddylid gwneud argymhelliad o'r fath, rhaid i'r Bwrdd CICau ymgynghori gyda Phwyllgor Gweithredol y CIC perthnasol. Os cafodd y Cadeirydd CIC ei benodi gan y 3<sup>ydd</sup> sector neu Awdurdod Lleol, rhaid hefyd ymgynghori â'r corff perthnasol yn gyntaf.

Yn dilyn penderfyniad gan y Bwrdd CICau i argymhell terfynu aelodaeth, rhaid anfon llythyr at yr aelod yn rhoi gwybod iddo am benderfyniad y Bwrdd. Cyn bod yr argymhelliad yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru, bydd y Cadeirydd CIC yn cael cyfle i apelio, yn unol â'r Broses Apelio isod.

Os na dderbyniwyd unrhyw apêl o fewn 14 diwrnod i'r Cadeirydd CIC gael gwybod am y penderfyniad, yna bydd y Bwrdd yn gwneud yr argymhelliad i Weinidogion Cymru.



## Proses apelio

Rhaid i Gadeirydd CIC sy'n dymuno apelio i gyflwyno ei fwriad i wneud hynny o fewn 14 diwrnod calendr iddo dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad.

Dylai'r hysbysiad hwn o fwriad i apelio nodi ar ba sail y mae'n apelio. Dylai'r aelod fod yn eglur ynghylch a yw'n apelio yn erbyn penderfyniad, unrhyw gamau dilynol a benderfynwyd gan y Bwrdd, neu yn erbyn unrhyw agwedd weithdrefnol i'r ymchwiliad a'r gwrandawriad ei hun.

Bydd panel apêl yn cael ei benodi, a bydd y trefniadau gweinyddol yn eu lle o fewn 14 diwrnod calendr a, lle bynnag y bo modd, gwrandewir ar yr apêl o fewn 28 diwrnod calendr i dderbyn yr hysbysiad apêl. Os nad yw hyn yn bosib, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

Bydd y panel apêl rhithwir yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd CICau, ynghyd â 2 aelod arall o'r Bwrdd CICau, na fu'n rhan o'r panel blaenorol. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai bydd angen ymestyn y terfyn amser hwn, gyda chytundeb y ddau barti, ond dylid gwneud pob ymdrech i wrando ar yr apêl yn brydlon.

Lle bo'n briodol, bydd aelod o'r TUR ar gael i gynorthwyo'r panel neu roi cyngor ar agweddau gweithdrefnol, ond ni fydd yn rhan o'r broses o ddod i benderfyniad.

Pwrpas yr apêl yw sefydlu a oedd y penderfyniad a wnaed yn y gwrandawriad Côt Ymddygiad yn rhesymol, yng ngoleuni'r sail a

godwyd gan yr aelod. Nid ail-wrandawriad y dystiolaeth wreiddiol yw'r apêl.

Bydd y gwrandawriad apêl rhithwir yn ystyried, yn benodol, a oedd y camau y penderfynwyd arnynt gan y Bwrdd CICau yn deg a rhesymol. Efallai bydd gwrandawriad yr apêl yn ystyried a chafodd y weithdrefn ei chymhwyso'n briodol.

Bydd yr apêl yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd sylweddol a nodwyd yn sail dros apelio.

Bydd aelod o'r TUR yn cael ei enwebu i gynrychioli'r Bwrdd CICau, a bydd yr aelod enwebedig, ynghyd â'r Cadeirydd CIC (a'i gydymaith), yn bresennol trwy gydol yr achos rhithwir, hyd nes y bydd y panel yn ymddeol i drafod yn breifat.

Bydd y Cadeirydd CIC (neu ei gydymaith) yn cadarnhau sail ei apêl, ac yn darparu gwybodaeth sy'n cefnogi ei achos.

## **Holi**

Bydd yr aelod TUR enwebedig yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r Cadeirydd CIC.

Bydd y panel apêl yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r Cadeirydd CIC.

Bydd y Cadeirydd CIC, neu ei gynrychiolydd, yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r aelod TUR enwebedig.

Bydd aelodau'r panel yn cael cyfle i holi cwestiynau i'r aelod TUR enwebedig.

## **Crynhoi**

Bydd yr aelod TUR enwebedig yn cyflwyno'r cyfiawnhad dros benderfyniad y Bwrdd CICau, a bydd yn cael cyfle i grynhoi. Ni ddylid cyflwyno gwybodaeth newydd yn y fan hon.

Bydd y Cadeirydd CIC, neu ei gynrychiolydd, yn cael cyfle i grynhoi. Ni ddylid cyflwyno gwybodaeth newydd yn y fan hon.

## **Dod i benderfyniad**

Gall y panel apêl, fel y barno'n ddoeth, i ohirio gwrandawriad yr apêl, er mwyn ceisio ac adolygu gwybodaeth bellach.

Bydd y panel apêl yn trafod mewn sesiwn breifat rhithwir, gan adalw'r ddau barti yn unig i egluro unrhyw bwyntiau o ansicrwydd ynghylch y dystiolaeth a roddwyd eisoes. Os oes angen adalw, yna fe fydd y ddau barti'n dychwelyd i'r gwrandawriad panel apêl rhithwir.

Pan fydd y panel apêl rhithwir wedi dod i benderfyniad, dylent roi gwybod i'r Cadeirydd CIC a'r aelod TUR enwebedig am y canlyniad ar unwaith neu, os oes angen rhoi'r penderfyniad yn ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod calendr. Yn y naill achos neu'r llall, bydd pob parti yn cael gwybod am y penderfyniad, neu'n cael cadarnhad o'r penderfyniad, yn ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod calendr i'r apêl. Os nad yw hyn yn bosib, fe fyddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n gysylltiedig.

## **Honiad bod Cadeirydd y Bwrdd ac Aelodau Annibynnol wedi torri'r Côt yn ystod y pandemig Coronafeirws**

Nid yw'r weithdrefn hon yn berthnasol i Gadeirydd y Bwrdd CICau, nac aelodau annibynnol y Bwrdd CICau, gan fod hyn y tu hwnt i gwmpas Rheoliadau CICau (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2015.

Bydd honiadau o dorri Egwyddorion Nolan, ar ran Cadeirydd y Bwrdd CICau neu Aelodau Annibynnol y Bwrdd CICau, yn cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru.